

# Gwers 2 – Tyfu i fyny



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

## Datblygiad

Lefel Gradd:

Teitl y Wers: Tyfu i fyny

### Amcan Dysgu:

- Datblygu dealltwriaeth o dyfu i fyny i fod yn hapus ac yn iach
- Datblygu dealltwriaeth o ddatblygu a chynnal ffordd iach o fyw
- Nodi rhywbeth sydd ei angen arnon ni i dyfu

Er budd y myfyrwyr, esboniwch beth byddan nhw'n gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hyn.

**Bydd Rhai Dysgwyr:** Yn gallu nodi'n annibynnol pa hawliau plant sydd eu hangen i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach.

**Bydd Mwyafrif y Dysgwyr:** Yn gallu dewis hawl maen nhw'n teimlo sy'n bwysig er mwyn tyfu i fyny'n hapus ac yn iach – gyda chefnogaeth os bydd angen.

**Bydd yr Holl Ddysgwyr:** Yn profi'r hawliau plant priodol sydd eu hangen i dyfu ac i fod yn hapus ac yn iach.

### Cwestiynau Allweddol:

- Pwy sy'n gallu cofio beth ddysgon ni yn ein gwerau ddiwethaf ar hawliau?
- Beth yw hawliau plant?
- Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru?
- Oes unrhyw un yn gallu cofio hawl?
- Beth sydd ei angen arnon ni i dyfu?
- Beth sydd ei angen arnon ni i fod yn iach?

### Deunyddiau / Adnoddau angenrheidiol:

- Stori Gymdeithasol – “Tyfu i fyny”
- Pecyn Lluniau – “Datblygiad”
- Cardiau Symbolau
- Gwrthrychau i gyfeirio atyn nhw
- Llyfryn Fy Hawliau i ar gyfer pob plentyn
- Lluniau o bethau sy'n cefnogi twf a datblygiad, e.e. bwyd iach, gofal iechyd

### Cyflwyniad:

Crynowch y wers flaenorol, gan dynnu sylw'r disgyblion at yr agweddau allweddol.

Cyflwynwch y gair datblygiad a dangos y "Pecyn Lluniau – Datblygiad" i'r dosbarth. Trafodwch beth mae'r lluniau'n ei ddangos a gofynnwch i'r dysgwyr ddehongli. Siaradwch am bob erthygl mae'r lluniau'n eu cynrychioli.

Esboniwch mai ystyr "datblygiad" yw tyfu i fyny'n hapus ac yn iach, a bod gan bob plentyn hawl i dyfu a byw.

Fel grŵp, darllenwch y Stori Gymdeithasol "Tyfu i fyny".

### Prif Weithgaredd:

Fel dosbarth, trafodwch beth sydd ei angen arnon ni i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach.

Amlygwch bwysigrwydd cadw'n iach, mynd i'r ysgol i ddysgu, mynd i gael gofal meddygol pan fydd angen, gan greu cysylltiad penodol â'r erthyglau addas – defnyddiwch y gwrthrychau i gyfeirio atynt/cardiau symbolau i gefnogi dealltwriaeth y disgyblion.

Gofynnwch i'r disgyblion ddewis yr hawliau maen nhw'n teimlo sydd bwysicaf iddyn nhw, i'w helpu i dyfu i fyny'n hapus ac yn iach. Mae'n bosib y bydd rhai disgyblion yn gallu cynnig rhesymau neu farn pam.

Tynnwch amlinelliad corff ar ddarn mawr o bapur. Fel dosbarth, llanwch y corff â lluniau o bethau sy'n cefnogi ein twf a'n datblygiad. Gallech chi roi lluniau o bethau sy'n gallu'n stopio ni rhag datblygu'n iach tu allan i'r corff. Mae'n bosib y bydd rhai disgyblion yn gallu cynnig rhesymau neu farn pam. Tynnwch luniau yn dystiolaeth.

Parhaus: Llanwch dudalen 7 o'r Llyfryn Fy Hawliau i (Pa fwyd sydd ei angen arnoch chi i gadw'n iach?)

### Sesiwn Lawn:

Crynhoi'r wers:

Beth rydyn ni wedi'i ddysgu heddiw?  
Oes unrhyw un yn gallu enwi hawl i fi?  
Beth mae tyfu i fyny yn ei olygu i chi?  
Beth sydd ei angen arnon ni i dyfu i fyny'n iach?  
Beth sydd ei angen arnon ni i dyfu i fyny'n hapus?

**Dysgu Ychwanegol Pellach (AFL):**

Ewch yn ôl at amcanion y wers, ydy'r disgyblion wedi cyflawni'r targedau a nodwyd? Yn dibynnu ar eu gallu, efallai bydd hyn yn parhau.

**Gwahaniaethu:**

- Cefnogwch ddysgwyr sydd â nam ar eu clyw â iaith arwyddion briodol
- Cefnogwch ddysgwyr ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASD)/ lefel isel â PECS/ lluniau cyfeiriadol
- Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Dwys a Lluosog (PMLD) – gallwch eu cefnogi drwy ddefnyddio Tac-Pac synhwyrdd i gyd-fynd â'r stori gymdeithasol. Ar gyfer y prif weithgaredd, gallan nhw archwilio rhannau'r corff trwy greu gwaith celf llanast a chreu darn o waith celf unigol/ar y cyd drwy ddefnyddio printiau maen nhw wedi'u creu â rhannau o'u cyrff. Gallai hyn gael ei ddefnyddio mewn gwersi eraill gan weddill y dosbarth a chreu rhan o arddangosfa dosbarth/ysgol.

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru [@complantcymru](mailto:@complantcymru) neu e-bostio [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)